Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Zoe Thompson**

**Amlwch**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

21/04/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r tro cyntaf i'r gwasanaeth hwn gael ei arolygu ers ei gofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nac ydy |

## Crynodeb

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19; felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan. Gwnaethom dreulio cyfnod byr yn y lleoliad er mwyn arsylwi ar y gofal a ddarperir a'r rhyngweithio rhwng y gwarchodwr plant a'r plant y mae'n gofalu amdanynt.  Gwnaethom ofyn am wybodaeth gan y gwarchodwr plant a gwnaethom drafod y wybodaeth hon a rhoi adborth yn ystod cyfarfod rhithwir.

Mae'r plant yn hapus ac maent wedi meithrin cydberthynas gynnes â'r gwarchodwr plant. Maent yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth, ac maent yn hyderus i gyfleu eu hanghenion. Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ac mae'n hyderus yn y gweithdrefnau y mae'n rhaid iddi eu dilyn. Mae'n garedig ac mae'n cefnogi'r plant mewn modd cynnes a chadarnhaol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle, y teganau a'r adnoddau yn addas ac yn ddiogel i'r plant. Caiff peryglon a risgiau eu monitro a'u rheoli yn effeithiol. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn dda ac yn deall ei chyfrifoldebau rheoliadol. Mae'n gwneud yn siŵr bod dogfennau a gwiriadau addasrwydd yn cael eu cadw'n gyfredol, a bod y rhieni'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad eu plant ac am unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth.

## Llesiant — Nid Oes Angen Rhoi Gradd

Mae'r plant wedi setlo, ac maent yn gyfforddus ac yn fodlon eu byd. Maent yn symud rhwng y lolfa a'r ystafell chwarae yn rhydd, a gallant ddewis rhwng y teganau a'r gweithgareddau sydd ar gael, am eu bod yn cael eu storio o fewn eu cyrraedd. Maent yn hyderus i ofyn am help pan fydd ei angen arnynt, er enghraifft os byddant am chwarae â theganau sy'n cael eu storio yn sied yr ardd.

Mae'r plant wedi meithrin cydberthynas gynnes â'r gwarchodwr plant ac â'i gilydd. Maent yn awyddus i chwarae gyda'i gilydd ac i sgwrsio â'i gilydd. Roeddent yn sgwrsio'n hapus â'r gwarchodwr plant am yr hyn roeddent wedi ei wneud yn yr ysgol y diwrnod hwnnw, ac roeddent yn awyddus i ddangos y lluniau roeddent wedi eu tynnu. Mae'r plant yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn dda, ac yn dangos gwir ddiddordeb yng nghyflawniadau ei gilydd. Er enghraifft, wrth weithio gyda'i gilydd i addurno wal yr ardd gan ddefnyddio'r sialciau mawr, roeddent yn edmygu gwaith celf ei gilydd ac yn sgwrsio â'i gilydd am y llun y byddent yn ei dynnu nesaf.

Mae'r plant yn hyderus i fynd at y gwarchodwr plant i gael cysur, ac mae hi'n rhoi anogaeth gadarnhaol iddynt ac yn eu cofleidio pan fydd angen. Er enghraifft, pe baent yn brifo eu hunain, byddent yn dangos hynny i'r gwarchodwr plant, sy'n ymateb iddynt mewn ffordd gariadus.

Mae'r plant yn cael amrywiaeth dda o brofiadau ac maent yn gallu treulio amser yn yr awyr agored.  Maent yn defnyddio'r ardd bob dydd, ac yn mynd i feysydd chwarae lleol yn rheolaidd lle y cânt gyfleoedd i ddatblygu'n gorfforol. Caiff y plant eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain, megis tacluso ar ddiwedd gweithgareddau a gwisgo eu hesgidiau a'u cotiau eu hunain. Mae hyn yn eu helpu i fagu hyder ac yn ychwanegu at eu hannibyniaeth.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae wedi cwblhau hyfforddiant diogelu yn ddiweddar, ac mae polisi diogelu manwl ganddi ar waith sy'n nodi'r camau cywir i'w dilyn pe bai ganddi unrhyw bryderon am blentyn y mae'n gofalu amdano. Mae'n gwneud yn siŵr bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal yn rheolaidd, megis ymarferion tân a gwiriadau dyddiol o'r ardaloedd y mae'r plant yn eu defnyddio. Mae'r gwarchodwr plant yn cofnodi pob damwain yn gywir, a rhoddodd sampl o ffurflenni wedi'u cwblhau i ni. Mae'n hybu arferion iach a hydradu da drwy sicrhau bod dŵr ar gael i'r plant drwy'r dydd a thrwy ofyn i'r rhieni ddarparu byrbrydau a phrydau bwyd iach i'w plant yn y lleoliad. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn glanhau eu dwylo pan fo'n briodol, megis wrth gyrraedd y lleoliad, ar ôl defnyddio'r toiled a chyn bwyta. Fodd bynnag, gwnaed hyn y rhan fwyaf o'r amser drwy roi gel gwrthfacterol i'r plant yn lle eu hannog i olchi eu dwylo gyda sebon a dŵr.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant. Mae'n garedig ac yn gyfeillgar, ac mae'n delio ag unrhyw ymddygiad digroeso mewn modd pwyllog a theg. Mae'n defnyddio dulliau cadarnhaol i ailgyfeirio'r plant os byddant yn dechrau dangos unrhyw ymddygiadau annerbyniol. Er enghraifft, pan oedd dau blentyn ar fin gorgynhyrfu wrth chwarae â'r ceffyl pren, llwyddodd i dynnu eu sylw drwy gynnig darllen llyfr stori iddynt am geffylau. Setlodd y ddau blentyn yn gyflym i wrando ar y stori.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau sy'n ddiddorol ac sy'n helpu'r plant i ddysgu a datblygu eu sgiliau. Mae'n cynllunio gweithgareddau yn unol â thema bob cwpl o wythnosau. Ceir teithiau sy'n cyd-fynd â'r thema, sy'n hybu cyd-feddwl parhaus a gwneud y profiadau yn fwy cofiadwy i'r plant. Cedwir cofnod o'r cynnydd a wneir gan y plant gan ddefnyddio llyfrynnau olrhain datblygiad plant manwl, lle y tynnir sylw at adrannau pan fydd y plant yn dangos eu bod wedi cwblhau pob sgil. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y rhieni yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd eu plentyn a gwybodaeth bwysig am eu hamser yn y lleoliad drwy anfon negeseuon preifat a lluniau yn rheolaidd.

| Yr Amgylchedd | Nid Oes Angen Rhoi Gradd |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd glân a diogel i'r plant. Mae ystafell chwarae ddynodedig gydag amrywiaeth o deganau ac adnoddau sy'n briodol i oedran y plant ar gael. Gall y plant hefyd symud yn rhydd rhwng yr ystafell chwarae a'r lolfa, lle mae modd iddynt ymlacio ar y soffas neu dreulio amser tawel os byddant am wneud hynny. Mae asesiadau risg manwl ar waith sy'n tynnu sylw at y peryglon posibl i'r plant a'r mesurau a roddwyd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae polisi ac asesiad risg manwl ar waith sy'n nodi'r gweithdrefnau ychwanegol sydd gan y gwarchodwr plant ar waith i atal lledaeniad posibl COVID-19. Caiff pob asesiad risg ei adolygu'n rheolaidd.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn darparu amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau i'r plant gael dewis o'u plith, gan gynnwys doliau, cerbydau bach, offer adeiladu, teganau adeiladu a deunyddiau celf a chrefft. Cedwir y teganau a'r gemau yn drefnus a chânt eu storio mewn blychau ar lefel isel fel y gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol. Mae digon o le yn yr ardal chwarae awyr agored i'r plant chwarae ac archwilio. Mae tŷ bach twt i'r plant ei fwynhau yn ogystal ag amrywiaeth o deganau reidio, peiriannau swigod, sleidiau a sialciau mawr i'r plant greu gwaith celf.

Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth o gyfarpar i gefnogi sgiliau annibynnol y plant iau. Er enghraifft, mae seddi toiled i blant bach ganddi a stôl step yn yr ystafell ymolchi ar y llawr gwaelod fel bod y plant yn gallu defnyddio'r toiled a golchi eu dwylo yn annibynnol. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn newid y teganau yn rheolaidd i sicrhau bod y plant yn cael amrywiaeth o brofiadau. Dywedodd wrthym hefyd ei bod yn glanhau'r teganau ar ddiwedd pob diwrnod, ac yn glanhau'n drylwyr bob wythnos, er nad oes cofnod o hyn.

| Arwain a Rheoli | Nid Oes Angen Rhoi Gradd |
|---|---|

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth gadarn o'i rôl a'i chyfrifoldebau rheoliadol, ac mae amrywiaeth o bolisïau ganddi sy'n golygu ei bod yn gallu rhedeg ei gwasanaeth mewn modd diogel ac effeithiol. Mae'r polisïau hyn yn glir ac yn llawn gwybodaeth, a chânt eu diweddaru yn rheolaidd. Rhydd y datganiad o ddiben ddisgrifiad clir a chywir o'r gwasanaeth a gynigir, gan ddarparu digon o wybodaeth i rieni wneud dewis ar sail gwybodaeth. Mae'r ddogfen hefyd yn adlewyrchu'r gweithdrefnau newydd a roddwyd ar waith yn ystod pandemig COVID-19, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am y newidiadau.

Mae'r gwarchodwr plant yn ceisio adborth gan y rhieni yn rheolaidd, ac mae'n nodi unrhyw welliannau arfaethedig mewn adroddiad blynyddol manwl ar yr adolygiad o ansawdd y gofal. Roedd yr adborth a roddwyd yn gadarnhaol, a dim ond un awgrym ar gyfer gwella a wnaed, a hynny gan blentyn. Cymerodd y gwarchodwr plant gamau i ddelio â'r mater yn brydlon. Yn ogystal, mae'r gwarchodwr plant yn nodi'r meysydd y mae angen iddi eu gwella ei hun, ac mae'n gweithio tuag at gwblhau'r gwelliannau hyn drwy gydol y flwyddyn.

Gwnaiff y gwarchodwr plant yn siŵr bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn ddilys ac yn gyfredol iddi hi ei hun yn ogystal ag i aelodau o'r aelwyd. Roedd y cofnodion a ddarparwyd yn dangos bod y gwarchodwr plant yn casglu'r holl wybodaeth ofynnol am y plant cyn iddynt ddod i'r lleoliad. Mae hyn yn rhoi cyfle iddi gynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion unigol y plant. Roedd y rhieni hefyd yn cael copi o holl bolisïau'r gwasanaeth, a gofynnwyd iddynt eu llofnodi er mwyn dangos eu bod yn eu deall ac yn cytuno â nhw. Mae'r gwarchodwr plant hefyd yn gofyn i'r rhieni lofnodi ffurflenni caniatâd er mwyn i'w plant gymryd rhan mewn teithiau a gweithgareddau yn ystod pandemig COVID-19.

Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth. Gwnaethant ddweud bod y gwarchodwr plant yn rhannu gwybodaeth â nhw am ddatblygiad eu plentyn ac am unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth yn rheolaidd. Gwnaethant hefyd ddweud ei bod yn hawdd iawn mynd at y gwarchodwr plant a'i bod yn barod i helpu gydag unrhyw ymholiadau a oedd ganddynt.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 – Cadw cofnod yn nodi pryd y caiff teganau ac adnoddau eu glanhau.

A2 – Defnyddio sebon a dŵr i olchi dwylo pan fydd modd yn lle gel gwrthfacterol.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni |
|---|

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Dim | |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/06/2021